

# Llywydd Anrhydeddus y Gymdeithas

## D. G. Lloyd Hughes

**G**aned Dafydd Lloyd Hughes ym Mhwllheli a derbyniodd ei addysg yn Ysgol Troed-yr-Allt a'r Ysgol Sir yn y dref. Ar derfyn ei addysg ffurfiol yn 16 oed, ymunodd â'r Gwasanaeth Suful yn Llundain. Heblaw am gyfnod yn y fyddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd, bu yn y gwasanaeth hwnnw mewn gwahanol fannau ar draws Cymru a Lloegr hyd ei ymddeoliad yn 1981. Magodd ddiddordeb dwfn yng ngorffennol ei dref enedigol, ac yn 1968 gwelwyd dechrau cyhoeddi llu o erthyglau ar ei hanes ganddo. Yn 1986, cyhoeddwyd Hanes Tref Pwllheli, ac i gydnabod gwerthfawrogiad y dref o'i lafur, cyflwynwyd medal arbennig iddo gan Gyngor y Dref, yr un cyntaf o'i bath yn ei hanes.

Yn dilyn, cyhoeddodd nifer o lyfrau ac erthyglau ar hanes y dref, yn cynnwys cyfrol yn Saesneg yn 1991. Cyhoeddodd, hefyd, lawer o erthyglau ar bynciau yr ymddiddorai ynddynt, ynghyd â dau lyfr ar hanes ardal Pencader yn sir



*Dafydd Lloyd Hughes*

Gaerfyrddin, wedi iddo ymgartrefu yno.. Ers blynyddoedd bellach bu'n ymddiddori yn hanes yr eiddo yng Ngwynedd a etifeddiwyd gan frenin

Lloegr drwy drechu Llywelyn ap Gruffudd yn y 13 ganrif. Gwelwyd cyhoeddi erthygl ar yr hanes yng Nghylchgrawn y Llyfrgell Genedlaethol yn y flwyddyn 2000. Pum mlynedd yn ddiweddarach, yn yr un cylchgrawn, ymddangosodd ei erthygl gyntaf o dair ar hanes hen dreffannau canol oesol Eifionydd, ac fe welir erthyglau ganddo yng Nghylchgrawn y Llyfrgell Genedlaethol. Yn 2002 dyfarnwyd iddo radd M.A. er Anrhydedd gan Brifysgol Cymru.

Mae wedi bod yn aelod o'r Gymdeithas ers y cychwyn ac wedi gweithredu ar y Pwyllgor tan y llynedd. Gyda'i frwdfrydedd a'i weledigaeth bu'n fodd i gynnal yr achos ac i lywio'r Gymdeithas mewn cyfnod anodd.

### CYDYMDEIMLAD

Dymuna'r Gymdeithas estyn ei chydymdeimlad dwys tuag at Dafydd Lloyd Hughes a'r teulu oll yn eu profedigaeth ddiweddar.

## Diwrnod Agored y Gymdeithas

YM

# MHORTMEIRION

## SADWRN 31 MAWRTH, 2007

*Traddodir darlithoedd gan*

**Y Parchedig HUW JONES** – *Cyfraniad y Gymraeg i'r Byd  
Amaethyddol yng Nghymru*

**Y Parchedig TOWYN JONES** – *Fel un a gerdda lwybr unig*

**DEI TOMOS** – *Awyr las i'w harloesi*

Bydd y cyfan am bris rhesymol o £26.50 gan gynnwys paned a bisgedi, cinio ganol dydd a mynediad i'r Pentref

( *Gweler ffurflen archebu y tu mewn* )